

DEVELOPMENT MANAGEMENT COMMITTEE  
22<sup>nd</sup> August 2012

**REPORT OF SOLICITOR**

---

**SUBJECT: HUMAN RIGHTS IMPLICATIONS**

The Human Rights Act 1998 provides that, from the 2<sup>nd</sup> October 2000, the rights set out in the European Convention on Human Rights will be accessible direct in the British courts. Members will recall that the rights concerned have been the subject of Training Sessions and Reports to Authority meetings.

The Act requires that, as far as is possible, existing legislation must be read and given effect in a way which is compatible with Convention rights. Furthermore, it will be unlawful for public authorities to act in a way which is incompatible with Convention rights.

In the planning sphere, relevant rights can attach both to applicants for planning permission, and also to third parties who may be adversely affected by a proposed development.

Consequently, it is essential that the way the Authority decides planning issues is characterised by fairness, and that the Authority strikes a fair balance between the public interest, as reflected in the Town and Country Planning legislation, and individual rights and interests.

Accordingly, the reports of the Development Management Officer that follow have been prepared with express and due regard to Convention Human Rights. In particular:

1. In assessing each application every effort has been made to consider, and place before Members, all the arguments put forward:
  - (a) by those seeking planning permission;
  - (b) by those opposing the grant of planning permission;
  - (c) by those suggesting conditions deemed appropriate if permission is to be granted.
2. Each planning application to be considered by the Committee is the subject of an individual Appraisal and Recommendation. These embrace a balancing of any competing interest.

## ADRODDIAD Y CYFREITHIWR

---

### PWNC: GOBLYGIADAU HAWLIAU DYNOL

Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol, ers yr 2<sup>ail</sup> Hydref 2000, yn galluogi'r hawliau sydd wedi eu gosod yn y Cytundeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i fod ar gael yn uniongyrchol yn Llysoedd Prydain. Atgoffwyd Aelodau fod Sesiynau Hyfforddiant wedi'u cynnal ynghylch yr hawliau hyn yn ogystal ag adroddiadau wedi'u hystyried gan yr Awdurdod.

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod deddfwriaeth gyfredol, hyd y mae'n bosibl, yn cael ei ddehongli a'i weithredu mewn modd sy'n gydnaws â hawliau'r Cytundeb. Ymhellach, fe fyddai'n anghyfreithlon i awdurdodau cyhoeddus weithredu mewn modd a fyddai'n anghydnaws â hawliau'r Cytundeb.

Yn y maes cynllunio, gallai hawliau perthnasol ymwneud â cheiswyr am ganiatâd cynllunio yn ogystal â phartion eraill y medrai'r datblygiad arfaethedig effeithio'n andwyol arnyn nhw.

O ganlyniad mae'n hanfodol fod y modd y mae'r Awdurdod yn penderfynu materion cynllunio yn cael ei nodweddu gan chwarae teg, a bod yr Awdurdod yn taro cydbwysedd teg rhwng y diddordeb cyhoeddus, fel y caiff ei adlewyrchu yn neddfwriaeth Cynllunio Gwlad a Thref, a hawliau a diddordebau unigol.

Felly, mae adroddiadau y Swyddog Rheoli Datblygu sy'n dilyn, wedi eu llunio'n bwrpasol i gymryd ystyriaeth o'r Cytundeb ar Hawliau Dynol. Yn benodol:

1. Wrth asesu pob cais, gwnaed pob ymdrech i ystyried, ac i osod gerbron yr Aelodau, yr holl ddadleuon a gyflwynwyd:
  - (a) gan y rhai hynny sydd yn chwennych caniatâd cynllunio;
  - (b) gan y rhai hynny sydd yn gwrthwynebu rhoi caniatâd cynllunio, a
  - (c) chan y rhai hynny sydd yn awgrymu y byddai amodau'n briodol petai caniatâd yn cael ei roi.
2. Mae pob cais cynllunio a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn destun Gwerthusiad ac Argymhelliad unigol. Ynghlwm yn hyn mae cydbwysedd o ran diddordebau a fyddai'n groes i'w gilydd.